

## MANYLEB ASESU LEFEL 6

|                    |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |                                                             |             |
|--------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------|-------------|
| Enw'r myfyriwr:    |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              | Rhif Adnabod y myfyriwr:                                    | 1803285     |
| Rhaglen:           | TAR Cynradd                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |                                                             |             |
| Modwl:             | Egwyddorion Addysgeg                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |                                                             |             |
| Cod y modwl:       | M6X001438/C                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  | Cyfraniad at Asesiad Cyffredinol y Modwl (%):               |             |
| Darlithydd:        | Siân Brooks                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  | Gwiriwr Mewnol:                                             | Siân Brooks |
| Teitl yr Aseiniad: | <p>'Disgrifiwch ddigwyddiad dysgu a ddigwyddodd yn ystod eich lleoliad.</p> <p>Adfyfyrwch ar beth ddigwyddodd, gan gysylltu digwyddiadau â damcaniaethau dysgu ac addysgu.</p> <p>Gwnewch argymhellion ynghylch sut gallech chi wella'ch arfer eich hun yng ngoleuni hyn, a chrëwch boster digidol i ddangos sut byddech yn defnyddio'r holl wybodaeth hyn i ddatblygu elfennau amgylchedd dysgu effeithiol.'</p>                                                                            | Nifer o eiriau (neu'r cyfwerth):                            | 6           |
| Dyddiad cyflwyno:  | 17/10/18                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     | Dyddiad dychwelyd marciau dros dro ac adborth ysgrifenedig: | 14/11/18    |
| Dull cyflwyno:     | <p>Lle bo'n ymarferol ac yn bosibl, rhaid cyflwyno pob asesiad ysgrifenedig drwy Turnitin, oni nodir yn wahanol gan y Darlithydd. (PEIDIWCH â rhoi'r fanyleb asesu hon i mewn i Turnitin neu bydd yn cyfateb i lawer o bethau tebyg yng nghyflwyniadau myfyrwyr eraill.)</p> <p><b>Dull cyflwyno arall (os ydy'n berthnasol):</b></p> <p><b>Bydd cyflwyno'r asesiad yn hwyr yn arwain at ddyfarnu marc cosb.</b> Cosbau am gyflwyno'n hwyr: Hyd at wythnos yn hwyr, uchafswm marc o 40%.</p> |                                                             |             |

|                                             |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
|---------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                             | Dros wythnos yn hwyr, 0%. Y Panel Amgylchiadau Esgusodol yn unig all gymeradwyo newid dyddiadau cyflwyno.                                                                                                                                                                                                                                         |
| <b>Gonestrwydd academiaidd / cyfeirnod:</b> | Mae gonestrwydd academiaidd yn ofynnol. Ym mhrif ran eich cyflwyniad rhaid i chi gydnabod awduron y mae'ch gwaith wedi'i seilio ar eu hymchwil a'u syniadau. Dylech atodi rhestr gyfeiriadau i'ch cyflwyniad sy'n nodi'r llyfrau, erthyglau ac ati rydych wedi'u defnyddio, wedi cyfeirio atynt neu wedi'u dyfynnu er mwyn cwblhau'r asesiad hwn. |

## Cyflwyniad

Dywed yr Athro Graham Donaldson (2015) bod yna pedwar diben i'r cwricwlwm newydd a'r nod yw sicrhau bod pob plentyn yn ddysgwyr uchelgeisiol galluog, yn gyfranwyr mentrus creadigol, yn ddinasyddion egwyddorol gwybodus ac yn unigolion iach a hyderus. Mae addysg wastad yn newid ac mae addysgwr yn ceisio gwella eu strategaethau dysgu trwy'r amser. Mae yna nifer fawr o wahanol strategaethau mae athrawon yn defnyddio ar gyfer dysgu, fel strategaethau ymddygiadol, adborth, hunan asesu a chwestiynu.

Yn yr aseiniad yma rwyf am ganolbwyntio ar gwestiynau, a chwestiynu fel strategaeth addysgu effeithiol yn y cyd-destun cynradd. Rwyf am drafod y defnydd cwestiynau a chwestiynu gan dynnu sylw at ddamcaniaethau pwysig sy'n eu cyfoethogi a hefyd trwy gysylltu hyn a digwyddiad dysgu fe arsylwyd mewn Ysgol yn ddiweddar.

Mae yna nifer o resymau pan mae cwestiynu yn foddhaol fel egwyddor addysgeg ac rwyf am drafod nifer o rain yn y traethawd ond serch hyn. Byddaf hefyd yn ystyried unrhyw anafanteision sydd yn gallu codi wrth ddefnyddio'r dechneg cwestiynu yn y dosbarth gan eto cyfeirio at y digwyddiad fe wnes arsylwi.

## Rhan 1

Am wybodaeth y darllenwr mae'r ysgol nes i arsylwi mewn yn ysgol arloesol ac felly yn un arbrol iawn sy'n edrych at y dyfodol yn unol â gweledigaeth yr Athro Donaldson ar "Ddyfodol Llwyddiannus". Yn ôl adroddiad Estyn yr ysgol yn 2017, fe wnaeth yr ysgol datblygu i fod yn ysgol darparu addysgu i ddisgyblion o 3 mlwydd oed hyd at 19 yn 2012. Y flwyddyn yma yn 2018 yw'r flwyddyn gyntaf i'r ysgol bod yn llawn twf. Mae'r ysgol yn gweithio hefo llywodraeth Cymru ar hyn o bryd i ddatblygu'r cwricwlwm.

Yn unol â chanllawiau BERA (2018), byddai yn cyfeirio at yr ysgol o hyn ymlaen fel ysgol "X" a byddai'n defnyddio ffug enwau ar gyfer unrhyw blentyn a byddai'n cyfeirio at er mwyn amddiffyn hunaniaeth y plant.

Mae yna ymchwil helaeth ar arsylwi mewn addysg ac mae yna niferoedd o wahanol fethodoleg yn cael eu defnyddio yn ogystal ag amrywiaeth o adnoddau. Wnes I ddefnyddio cymysg o fethodoleg faintiolus ac ansoddol yn y gobaith byddai hwn yn rhoi'r stori gyfan o'r digwyddiad dysgu nes i arsylwi (Wragg, 1994:7). Er hyn, roedd yna gyfyngiadau o ran amser a hefyd yr adnoddau oedd ar gael. Yn yr un modd, fel myfyriwr ac ymwelwr yn yr ysgol oedden am sicrhau bod yr arsylwi oeddwn yn gwneud ddim yn aflonyddgar yn y dosbarth, ac felly roedd angen defnyddio dull a thechneg syml i ddim dylanwadu ar unrhyw beth oedd yn mynd ymlaen i sicrhau cynrychiolaeth pur. Fe wnes i gymryd nodiadau yn y dosbarth sydd yn darparu gwybodaeth uniongyrchol mewn amser byr a hefyd dull systematig o gofnodi data cyflym mewn tabl sydd yn cael ei adnabod fel 'category system' yn ôl Wragg (1994: 33). Roedd y nodiadau yn cofnodi'r hyn oedd yn digwydd o ran y deialog ac roedd y tabl a nodiau yn medru rhoi data rhifol i gefnogi.

Y wers rwyf am gyfeirio at sy'n gysylltiedig â chwestiynu ydy'r gweithgaredd dosbarth 'dangos a dweud'. Roedd y wers yma yn cymryd lle yn nosbarth Blwyddyn 1 ar y carped o flaen ddesg yr athrawes. Roedd y dosbarth cyfan yn cymryd rhan yn naturiol yn trwy naill a'i chyflwyno gwrthrych ac ateb cwestiynau neu wrando ac yn gofyn cwestiynau. Nod y digwyddiad dysgu oedd i'r plant i gasglu gwrthrychau o'u chartrefi ac i dangos rhain i'r dosbarth, wedyn ymarfer sgiliau cyfathrebu ar lafar trwy sesiwn holi ac ateb.

Roedd pob plenty yn cael cyfle i arwain y dasg yn ei thro. Roedd yr athrawes yn dewis y plentyn trwy ddewis gwrthrych allan o fag plastig ar hap ar ôl casglu'r gwrthrychau cyn y wers dechrau. Yn gyntaf dyma'r athrawes yn tynnu palet colur allan ac yn ei dangos i'r

dosbarth cyn gofyn i'r perchennog i godi a dod i'r blaen. Nesaf roedd angen i'r plentyn i ddisgrifio'r eitem i weddill y dosbarth, roedd yr athrawes yn sefyll nôl ar ôl gofyn i'r plentyn i ddweud beth oedd yr eitem a beth oedd ei bwrpas? Ar ôl i'r plentyn rhoi disgrifiad bras i weddill y dosbarth roedd yr athrawes yn gofyn i'r plant i holi cwestiynau am y gwrthrych. Roedd yr athrawes yn rheoli hwn gan ofyn i'r plant i roi ei dwylo i fynnu ond wedyn yn rhoi'r cyfrifoldeb yn ôl i'r plentyn ar blaen y dosbarth i ddewis rhywun i ofyn cwestiwn.

Roedd yr athrawes yn gwirio iaith y plant trwy fodeli'r iaith gywir ond hefyd yn gofyn i'r plant i feddwl am gwestiynau gwahanol oherwydd oedd yna dueddiad i'r plant ofyn cwestiynau tebyg gyda gwahanol ddechreuadau. Roedd yr athrawes yn gadael i'r plant i ryngweithio gyda'i gilydd ond yn cefnogi trwy awgrymu bod y plant yn meddwl am gwestiynau gyda dechreuadau amrywiol fel 'Sut?, Beth?, Pam?'. Roedd hwn yn annog y plant i ymestyn eu geirfa a hefyd eu meddyliau.

Mae hwn yn cyfuno hefo addysgu Bruner o 'scaffoldio' a Vygotsky o ddefnyddio 'more expert other' ar gyfer ymestyn a datblygu dealltwriaeth y nofisiaid trwy iaith a byddai'n ymestyn y syniad yma yn rhan 2 (Pollard and Black-Hawkins, 2014:100). Mae'r deialog yn gyfunol, yn eilunodol, yn gefnogol, yn gronnol ac yn bwrpasol ar gyfer dysgu'r plant a trwy'r ymarfer hyn mae'r plant yn gallu tyfu trwy gasglu syniadau eu hun a syniadau eraill (Pollard and Black-Hawkins, 2014:101).

Roedd yr athrawes yn addasu faint o gefnogaeth oedd angen yn dibynnu ar lefel dealltwriaeth y plant ac weithiau yn tynnu i ffwrdd y gefnogaeth wrth ryngweithio yn llwyddiannus ac yn annibynnol (Pollard and Black-Hawkins, 2014:317). Mae'r gweithgaredd 'dangos a dweud' yn cyffroi'r plant oherwydd bod nhw yn medru cymryd rhan flaenllaw i ddysgu am bethau gwerthfawr i'w cyfoedion a phrofwyd (Whitebread and Coltman, 2003:280) bod ansicrwydd a syfrdandod yn werthfawr iawn i unrhyw dysgu ac addysgu.

Fe wnaeth yr ail blentyn dangos dol liwgar oedd yn gymeriad ar ffilm ddiweddar. Fe wnaeth y plentyn mynd ymlaen i ddisgrifio pwy oedd y ddol ac wedyn fe ddechreuodd y plant i ofyn cwestiynau. Roedd yr athrawes yn gadael y plentyn i ddewis unigolion i ofyn cwestiynau unwaith eto ac yn ymyrryd trwy anogaethau pan roedd angen trwy awgrymu cwestiynau i ofyn, neu trwy ymestyn y cwestiynau roedd y plant yn barod yn gofyn. Roedd y plant hefyd yn gofyn ambell i gwestiwn nad oedd yn berthnasol ac yn ailadrodd cwestiynau roeddent wedi gofyn i'r plant eraill. Felly roedd yr athrawes wedyn yn camu'i mewn trwy awgrymu cwestiynau newydd ac awgrymu geirfa bwrpasol ddiddorol all y plant defnyddio i greu cwestiynau newydd a gwreiddiol. Fe wnaeth Brown a Wragg (1993:20) awgrymu bod cwestiynau procio yn datblygu meddyliau'r plant:

“Probing questions are probably the most important tactic for developing the thinking of pupils”.

Gan ddaw dim ond gweithgaredd o tua ugain muned odd y ‘dangos a dweud’ dim ond tri phlentyn cafodd y siawns i ddangos eu gwrthrychau, ond oedd e’n dasg a bydd yr athrawes yn dychwelyd ato i ganiatáu bod pawb yn cael cyfle. Fe ddangosodd y trydydd plentyn tystysgrif nofio ac felly roedd y plant yn gofyn nifer o gwestiynau diddorol oherwydd bod llawer ohonyn nhw wedi cael y profiad o nofio ac felly yn gallu gofyn cwestiynau yn seiliedig ar brofiad eu hun, ar wybodaeth oeddent yn gwybod yn barod am y cyd-destun nofio.

Mae hwn yn cyd-fynd hefo damcaniaeth Vygotsky am luniadaeth adeiladol sef dysgu wrth eraill a hefyd mewn geiriau John Donne “no man is an island” (Brophy 2002:2). Felly, mae plant yn dysgu wrth wrando ar brofiadau a syniadau eraill trwy gyd weithio mewn ffordd gymdeithasol.

Yn amlwg roedd yna rhai cyfyngiadau i'r fethodoleg arsylwi fe wnes i ddefnyddio. Fel ymwelwr am ddim ond cwpl o ddiwrnodau doedd yna dim digon o amser i gael caniatâd i dynnu lluniau neu i recordio yn y gwersi, felly roedd rhaid defnyddio methodoleg fwy syml ac fel canlyniad, oedd e ddim yn medru dangos llun o'r wers mor glir. Er hynny, fe wnes i geisio gwneud y gorau i ganiatáu cynrychiolaeth pur hefo'r fethodoleg a oedd ar gael i mi ar y pryd.

Er hyn rydw i yn meddwl fe wnes i weld y strategaeth o gwestiynu yn glir fel digwyddiad dysgu positif iawn yn y dosbarth. Yn yr ail ran o'r aseiniad dwi am ymchwilio mewn i ddefnydd o gwestiynu i gefnogi ac ymestyn dysgu yn y dosbarth.

## Rhan 2

Mae cwestiynu yn dechneg sydd yn cael ei ddefnyddio mewn niferoedd o wahanol ffyrdd yn y dosbarth, ac mae yna nifer o resymau am hyn ac rwyf am drafod y prif fanteision yn y traethawd yma (Brown and Wragg 1993:3). Mae cwestiynu yn helpu i ddangos dealltwriaeth pwnc y plant i'r athrawon a hefyd yn pwysleisio unrhyw frwydrau sydd ganddyn nhw am y gwaith maent yn cael eu haddysgu. Mae'r athrawon yn medru defnyddio'r wybodaeth yma ar gyfer cynllunio a pharatoi gwaith sydd i ddilyn. Mae hwn hefyd yn gallu cael ei ddefnyddio fel modd o asesu a mesur cynnydd y plant (Petty 2009: 202).

Mae athrawon yn gofyn canodd o gwestiynau pob dydd, miloedd mewn blwyddyn a miliynau yn eu gyrfâu ac mae cwestiynu llwyddiannus yn dechneg sy'n ganolog mewn dosbarth rhyngweithiol ac mae'n dysgu plant i gyfrannu yn llafaredd (Wragg and Brown 2001: 1). Mae meddyliau plant yn gallu gwella wrth gael y cyfle i ateb cwestiynau wrth eu hathrawon a hefyd yn dod i arfer a chyfathrebu. (Wragg and Brown 2001:1). Mae'r theori

Tacsomi Bloom yn enwi chwe math o wahanol broses gwybyddol fel gwerthuso, synthesis, dadansoddi, cynhwyso, dealltwriaeth a gwybodaeth ac mae yna gwestiynau ar gyfer pob un o rain (Pollard and Black-Hawkins, 2014) ac felly dylai athrawon creu gwahanol dasgau i sicrhau bod yna amrywiaeth o gwestiynau yn cael eu gofyn i ddatblygu gwahanol sgiliau'r plant.

Mae athrawon yn gofyn cwestiynau yn aml i blant i geisio adnabod yr hyn maent yn gwybod yn barod ac nid i ddarganfod gwybodaeth. Mae cwestiynu yn helpu plant i atgyfnerthu'r hyn maent yn gwybod gan brocio'r cof ac yn datblygu creadigrwydd a gwella sgiliau datrys problemau. Mae cwestiynau yn gallu ffocysu sylw'r plant ynghylch a chyddestun, cyffroi plant i ofyn cwestiynau i'w gilydd ac i annog cyfranogiadau (Wragg and Brown 2001:1). Mae plant yn gofyn niferoedd o gwestiynau mewn niferoedd o wahanol sefyllfaoedd oherwydd ei bod nhw hefo chwilfrydedd anniwall (Whitebread and Coltman, 2003:12).

Dyweda Petty (2009:204) bod cwestiynau llwyddiannus yn glir, pwrpasol, byr ac yn cael eu penodi mewn iaith syml ac addas hefo cydbwysedd o ffaith a meddwl. Mae cwestiwn da hefyd yn gallu cael elfen o syndod ac mae'r ymateb yn gallu annog yr addysgwr a'r dysgwr i drafod pethau oeddent ddim yn sylweddoli ohonyn nhw'n gwybod. (Morgan and Saxton, 1991:78). Mae cwestiynau da yn cynnal sylwi'r plant ac yn ysgogi a galw ar eu teimladau. (Morgan and Saxton, 1991:78).

Mae cwestiynu hefyd yn foddhaol i blant oherwydd bod atebion cywir yn rhoi hyder lldyn nhw i barhau a ymdrech i fwy ac mae'r hyder ar lwyddiant ynghyd ac adborth positif sy'n cymhella'r plant ym mhellach (Petty, 2009:204). Fodd bynnag mae Wragg a Brown (2001:16) yn awgrymu bod gormod o gwestiynu yn gallu drysu'r plant ac wrth ganlyniad maent wedyn yn colli hyder a ddim eisiau ateb yn y dyfodol. Dylai athrawon

ystyried hefyd bod angen cofio rhoi saib i blant i ar ôl gofyn cwestiwn. Mae Petty (2004:184) yn awgrymu bod athrawon ar y cyfan ddim yn rhoi'r amser i blant ar ôl osod cwestiwn cyn gofyn am ateb ac mae hwn yn hanfodol am gwestiynau llwyddiannus. Awgryma Kerry (1982) bod athrawon yn aml yn defnyddio geirfa rhy gymhleth, ddim yn rhoi digon o amser meddwl i blant a hefyd ddim yn rhoi digon o ganmolïaeth.

Yn ôl damcaniaeth Vygotsky mae athrawon a phlant yn y dosbarth yn ganolig yn y broses o ddysgu. Mae Vygotsky yn gweld athrawon mwy fel oedolyn gwybodus a phrofiadol sy'n medru adeiladu ar wybodaeth y plant wrth annog a chefnogi nhw i ddarganfod gwybodaeth eu hun, yn lle cyfarwyddwyr sy'n rhoi'r wybodaeth gyfan iddyn. Yn dilyn hyn mae Vygotsky yn credu bod plant yn dysgu drwy ryngweithiad cymdeithasol hefo addysgwyr medrus yn arwain y drafodaeth. Roedd Vygotsky (1978) yn credu yn gryf bod angen i blant i fod yn ddysgwyr actif a rôl yr athro oedd annog hwn yn y dosbarth gan roi digonedd o gyfleoedd i blant i ddarganfod pethau allan ar ben eu hun ac wrth gefnogaeth eu cyfoedion. (Whitebread and Coltman, 2003:3). Yn y gweithgaredd dosbarth fues i'n arsylwi roedd y plant yn cymryd rôl actif gan feddwl am gwestiynau eu hun, hefo'r athrawes yn cefnogi ac ymestyn ansawdd y cwestiynu pan roedd y plant yn rhedeg allan o syniadau ac yn ailadrodd yr un cwestiynau.

Un o'r theorïau mwyaf cydnabyddedig Vygotsky oedd ei syniad am Y Parth Datblygiad Procsimol (PDP) sef y blwch rhwng beth mae'r plant yn medru cyflawni ar ben ei hun a beth maent yn medru cyflawni hefo cefnogaeth. Mae'r gefnogaeth fel arfer yn cyfeirio at gyfoed neu oedolyn mwy gwybodus a profiadol. Mae'r gefnogaeth hyn yn medru cael ei adnabod fel scaffoldio ac mae'r plant ddim yn gallu cymryd y cam nesaf heb gefnogaeth yn y PDP (Brophy, 2002) . Mae'n bwysig i nodi does dim rhaid i'r gefnogaeth dod o oedolyn, ond mae cyfoedion yn medru cefnogi yn yr un modd i helpu ei gilydd cyrraedd y lefel PDP

(Brophy 2002:4). Mae Vygotsky hefyd yn awgrymu bod y plant yn gallu cyrraedd gwell safbwynt o ddealltwriaeth a dod lan a gwell syniadau trwy gefnogaeth ei gilydd ac yn medru cynhyrchu gwaith o well safon. Fe wnaeth Vygotsky awgrymu bod plant yn dysgu yn well mewn amgylchedd lle mae yna luniadaeth gymdeithasol sy'n golygu dysgu drwy ryngweithio ag eraill.

Fe wnaeth Bruner adeiladau ar gysyniadau Piaget a Vygotsky gan ddweud bod y broses dysgu hefo plant yn digwydd trwy gefnogaeth a trwy scaffoldio gan ddefnyddio dulliau addysgu fel cwestiynu a thrafod yn gymdeithasol. Mae cwestiynu yn gallu helpu plant i ddysgu trwy gael cefnogaeth pan mae eisiau ac yna tynnu'r gefnogaeth i ffwrdd iddynt fedru mewnoli'r wybodaeth.

Mae'r fethodoleg addysgu trwy luniadaeth gymdeithasol yn agored ond un o'r ffurfiau mwyaf amlwg yw'r athrawon yn arwyddo'r drafodaeth drwy gysylltu hefo gwybodaeth, credoau, a sgiliau'r disgyblion trwy osod her a gofyn cwestiynau perthnasol. Yn ystod unrhyw drafodaeth mae'r rôl yr athrawon yn holl bwysig a dylai'r athrawon edrych ar sut mae'r disgyblion yn cymdeithasu gyda'i gilydd yn gyson trwy'r drafodaeth er mwyn gallu manylu'r beth maent yn dweud a datblygu eu dysgu (Brophy 2002:48). Rôl y disgyblion yw ateb y cwestiynau, mynegi ei chredoau a theimladau i gefnogi ac egluro ei hatebion a hefyd ychwanegu at atebion y disgyblion eraill (Brophy 2002:50).

Mae yna gyfyngiadau i'r elfen o luniadaeth gymdeithasol sef bod dosbarthau cyfan yn gallu bod yn grŵp sydd yn rhy fawr i hwn i ddigwydd yn effeithiol a llwyddiannus a hefyd bod niferoedd o blant yn medru cuddio a ddim eisiau cyfrannu mewn grŵp mawr. Mae lluniadaeth gymdeithasol yn gweithio yn fwy llwyddiannus felly mewn grwpiau bach gan fod y disgyblion yn medru cyfrannu yn fwy hyderus a'r athrawon a'r plant yn medru creu

perthnasau mwy personol ac felly yn gallu cefnogi ei gilydd a dysgu yn well trwy ddeall profiadau a chefnidiroedd ei gilydd (Brophy, 2002:66).

Yr ail gyfyngiad rwyf am egluro yw'r syniad bod lluniadaeth gymdeithasol yn fwy llwyddiannus pan bod y gweithgaredd yn rhywbeth mae'r plant wedi cael profiad o yn y gorffennol fel taith i amgueddfa neu arbrawf gwyddoniaeth. Mae hwn yn digwydd oherwydd bod gyda nhw teimladau cyfrannol fel grŵp. Yn gyfan gwbl mae'r damcaniaeth hwn yn cael ei alw yn lluniadaeth gymdeithasol (Whitebread and Coltman, 2003:4). Mae nifer yn cytuno bod plant yn gweithio yn well ac yn gallu cyflawni gwaith ar well safon pan yn cydweithio ac yn dysgu gyda'i chyfoedion yn y dosbarth. Roedd hwn yn amlwg pan wnes i arsylwi oherwydd roedd y plant yn datblygu eu syniadau trwy gwestiynu gyda'i gilydd ac yn ymestyn ar y wybodaeth oeddent yn gwybod yn barod trwy gymdeithasu.

### Casgliad

I gloi, mae cwestiynu yn erfyn sy'n hanfodol mewn datblygiad plant yn y dosbarth ac fel arsylwyd yn yr ysgol mae cwestiynu trwy drafodaeth yn effeithiol ac yn rhoi mwynhad i'r plant. Fel dyweda Whitebread and Coltman (2003:104), 'we are as human beings essentially sociable' ac felly mae plant yn diddori mewn eu cyfoedion yn y dosbarth ac yn gallu dysgu trwy gyd-weithio a chwestiynu ei gilydd. Roedd y digwyddiad fe wnes i arsylwi hefyd yn datblygu sgiliau gwrandao'r plant a sgiliau cwestiynu eu hun trwy ddefnyddio gweithgaredd oedd yn berthnasol a diddorol Iddyn nhw oherwydd roeddent yn disgrifio gwrthrychau a oedd yn werthfawr iddyn nhw.


Ar yr un pryd dylid nodi'r ddadl sef - A fyddai cwestiynu yn fwy effeithiol gyda grwpiau llai na gyda'r holl ddosbarth? Bydda'r cyfle i wneud y gweithgaredd a arsylwyd fel gweithgaredd dosbarth cyfan ar raddfeydd gwahanol yn rhoi mwy o syniad i mi os yw e'n gweithio yn well mewn grwpiau bach. Tybed a fyddai grwpiau bach yn well oherwydd yn

amlwg fyddai hyn yn rhoi gwell cyfle i bob disgybl i gymryd rhan fel arweinydd a mwy o siawns i'r grŵp i ofyn mwy o gwestiynau. Ond ar yr un modd mae'r gweithgaredd yma yn gweithio'n dda fel gweithgaredd dosbarth cyfan hefyd a falle yn grwpiau bach bydd y gofyn Iddyn nhw i weithio yn fwy annibynnol yn debygol a byddai rhai o'r plant ddim yn gallu ymdopi a hyn (Geen, 2005). Bydd y gofynion mewn grŵp llai yn llawer fwy a byddai rhai plant ddim yn mwynhau'r gweithgaredd hefo mwy o bwysedd i ofyn cwestiynau.

Ni ellir anwybyddu'r ffaith bod cwestiynu yn gallu bod yn strategaeth lwyddiannus ar gyfer dysgu yn y dosbarth a bydd e yn dechneg barhaol ar gyfer y dyfodol llwyddiannus a thu hwnt. Mae cwestiynu mewn trafodaeth trwy'r damcaniaeth o luniadaeth gymdeithasol hefyd yn rhywbeth a welir ar draws yr ysgol gynradd. Mae yna ymchwil dwys i gefnogi'r syniad bod gweithio gydag eraill yn datblygu'r dysgu ac yn ffordd o fwynhad i'r plant.

### Rhan 3

#### Poster Digidol



#### Cyflwyniad

Mae yna nifer o nodweddion sy'n gwneud amgylchedd dysgu da ac rwyf wedi creu fy amgylchedd dysgu delfrydol ar gyfer y cyfnod Sylfaen ac felly wedi ffocysu ar greu ardal gysurus, waharddol, ymarferol a deniadol ac wedi cynnwys cydbwysedd rhwng ardaloedd tu fewn a thu allan (Claxton and Carr 2010). Yn ogystal ar ardaloedd sydd yn y poster, mae arddangosfeydd ysgogol ac amrywiaeth o adnoddau yn hynod o bwysig i greu'r amodau cywir yn y dosbarth dysgu, a dysgu ac addysgu llwyddiannus. Dyle dosbarth cyfnod Sylfaen darparu profiadau disglair newydd i blant am y tro cyntaf a pharatoi cyfleoedd lle allent nhw ddefnyddio'r profiadau yma i gysylltu hefo'r wybodaeth maent yn gwybod yn barod i helpu nhw i ddechrau gwneud synnwyr o'r byd. Yn y traethawd yma rwyf am canolbwyntio ar rhai

ardaloedd rwyf wedi cynnwys yn y poster digidol a'i cyfoethogi hefo damcaniaethau dysgu ac addysgu.

### Ardaloedd chwarae

Mae Vygotsky (1978:102-3) yn disgrifio chwarae fel 'a leading factor in development'. Mae chwarae yn foddhaol iawn i blant yn y cyfnod Sylfaen ac yn datblygu eu meddyliau, eu cynwyseddau emosiynol, eu personoliaethau a'u cyrff (Tovey 2007:7). Rwyf wedi cynnwys nifer o wahanol ardaloedd allanol a mewnol i ysgogi'r plant i chwarae ac i chwarae trwy ddysgu. Gwnaeth Froebel (1887) datblygu theori bod chwarae yn rhoi cyfle i blant i gysylltu'r holl wybodaeth maent yn gwybod gyda'r hyn maent yn teimlo a taw chwarae yw'r dysgu mwyaf safonol y mae plant yn gwneud. Gwnaeth Isaacs (1929:133) cynnig bod chwarae llwyddiannus yn digwydd pan bod y plant yn cael rhyddid llwyr i wneud y chwarae ei hun. Vygotsky hefyd yn cyflwyno damcaniaeth 'dual affect' sy'n golygu bod plant yn medru byw yn dau fyd ar yr un pryd, y byd go iawn, a'r byd chwarae rôl (Whitebread and Coltman, 2003:143).

"Young children transform space for their own purposes" (Tovey 2007:57) Gall y syniadau hyn fod yn cwbl wahanol i'r un sydd gyda'r oedolion ac felly mae angen creu ardaloedd i blant lle galle'n nhw fod yn awduron ac yn ddarllenwyr o'r amgylchedd ei hun. (Tovey 2007:55).

Tu fewn y dosbarth rwyf wedi cynnwys ardal chwarae rôl hyblyg a bydd hwn yn helpu'r plant darganfod ac ymestyn eu dealltwriaeth o'r byd gan ddod yn arfer a rolau gwahanol yn y gymdeithas (Palaiologau, 2010:130). Bydd thema'r ardal chwarae rôl yn amrywio a chyd symud hefo'r themâu newydd y termau ysgol. Mae'r ardal chwarae rôl yn un i'r plant i chwarae ar ben eu hun heb ymyriant o'r oedolion yn y dosbarth a chytunaf

Vygotsky (1986) bod chwarae rôl yn datblygu'r plant ar lefel uwch oherwydd y profiad unigryw a heriol maent yn cael. Bydd yr ardal chwarae rôl ar raddfa fawr gyda dyluniad beiddgar a lliwgar i ddarparu ffocws gweledol ac i dynnu sylw yn syth (Whitebread and Coltman, 2003: 44). Bydd yr ardal yma yn dysgu plant sgiliau allweddol fydd eu hangen arnynt hwy fel oedolion fel cydweithio a bydd yn cynnau eu creadigrwydd. Mae plant yn dysgu sut i fynegi a rheoli eu teimladau a hefyd yn datblygu sgiliau datrys problemau (Pizzolongo, 2014:6). Chwarae ffantasi bydd yn digwydd yn y cornel perfformio neu yn y wahanol themâu yn y cornel chwarae rôl (Smith, 2009:9). Mae'r cornel chwarae a chornel chwarae rôl hefyd yn pwysleisio ar yr elfen gymdeithasol o ddysgu trwy chwarae (Bilton, 2010).

Wnaeth Piaget pwysleisio'r pwysigrwydd o blant yn cyfathrebu gyda'r amgylchedd a hefyd y syniad daw dylai plant cael y cyfle i ddarganfod pethau am eu hun yn lle gwastad cael oedolion gwastad yn rheoli'r dysgu. Mae Estyn (2013:25) yn sôn am y pwyslais sydd ar ddysgu a chwarae mewn ardal allanol yn y cyfnod Sylfaen. Mae rhyddid i chwarae tu allan yn weithgaredd sydd wedi dirywio i nifer o blant sydd yn byw yn ardaloedd gweledig a trefol oherwydd gofidion oedolion am ofalwch plant a hefyd datblygiad y byd technolegol. Mae Furedi (2002) yn disgrifio'r hyn fel a 'culture of fear'. Oherwydd hyn mae e yn hanfodol bwysig bod y plant yn cael y cyfle o chwarae tu allan yn ystod amser ysgol trwy'r tymhorau i gyd (Tovey 2007:2).

Rwyf wedi sefydli Gegin Mwd le medrau'r plant i ddatblygu eu dealltwriaeth y byd pob dydd gan chwarae hefo gwrthrychau fel modeli does neu arllwys dŵr mewn i wahanol gynhwysyddion. Mae yna hefyd Ardal Coedwig tu allan a bydd yn datblygu eu hannibyniaeth, ymwybyddiaeth ofodol a hefyd yn dysgu plant sut i gyd-weithio gyda phlant ac oedolion eraill. Mae'r ardal tu allan yn fwy llifol a hyblyg na'r ardal tu fewn ac oherwydd

hyn mae'n rhoi mwy o ryddid i blant ac mae'n cynnig profiadau llawer mwy cyfoethog o ran eu synhwyrâu sy'n helpu nhw i wneud cysylltiadau gyda'r byd ac yn wahanol i'r tu fewn. Does 'na ddim rheolaeth ar y tymheredd, arogl na sŵn ac felly yn brofiad mwy gwerthfawr a pwerus ac yn un sydd yn medru aros da blant am eu hoes (Tovey 2007:16).

“It is the sharp contrast in sensory experience that can offer the burst of energy... and the sensation of freedom from the more dulling effects of the indoor environment” (Tovey 2007:16).

Mae chwarae tu allan yn rhoi fwy o brofiadau i blant ac mae popeth ar raddfeydd llawer yn fwy gyda mwy o risgiau a heriau sy'n ffordd arall y mae plant yn dysgu (Smith, 2009: 9). Yn yr ardal tu allan mae yna hefyd cornel anturus, bydd hwn yn cynnwys nifer o weithgareddau corfforol fel rhedeg, dringo a neidio i ddatblygu eu hiechyd corfforol a meddyliol. Pwysleisiodd Tovey (2007:103) y pwysigrwydd i ni i feistroli sgil asesu a rheoli'r risgiau er bod ni ddim yn ildio i fod yn rhy bryderus ac anystyriol. Mae rhyddid i blant wrth chwarae yn hanfodol bwysig ond mae'r profiadau real ac aml synhwyradd yn medru cysylltu gyda nifer o wahanol gyfleoedd ddysgu hefyd ar draws y cwricwlwm (Hayes, 2008:172). Mae angen i'r ardaloedd chwarae bod yn hyblyg a bod nhw yn gallu llifo mewn i'w gilydd ac yn cydlynu hefo'r ardal tu fewn (Bruce, 2004:108).

### Desgiau tasg ffocws

Rwyf wedi rhoi desgiau yng nghanol y dosbarth, bydd y rhain yn cael eu defnyddio ar gyfer tasgau ffocws fel iaith, rhifedd, gwyddoniaeth, technoleg a dyniaethau. Mae'r desgiau yn golygu gall yr athro trefnu eu disgyblion mewn unrhyw ffyrdd sydd yn addas, yn aml mae plant yn cael eu grwpio mewn i wahanol grwpiau gallu ar gyfer wahanol bynciau yn y cwricwlwm. Rwyf wedi cynnwys desg i'r athro er mwyn bod yr athro yn medru trefnu'r

gwaith a chyflwyno'r tasgau, gan roi'r adnoddau ar amgylchiadau pwrpasol i'r plant (Hayes, 2008:237).

Mae yna fyrddau ar gyfer y plant i ganolbwyntio ar dasgau ffocws, mae'r byrddau wedi cael eu cynllunio yn y ffordd a chael eu gosod yn lle addas i wneud gweithio mewn grwpiau yn bosibl ac yn addas er mwyn bod gan bob disgybl y cyfle i gyrraedd ei llawn botensial fel dysgwyr. Mae plant aml yn gallu gweithio yn llwyddiannus mewn grwpiau bach oherwydd eu bod nhw'n teimlo yn ddiogel ac felly yn fwy hyderus i rannu syniadau. Hefyd, maent yn cael mwy o gyfle i gyfathrebu a helpu ei gilydd. Y siawns i rannu syniadau a helpu'i gilydd.

### Ardal ddigidol

Y dyddiau yma rydym yn byw yn gymdeithas sy'n wedi ei drochi hefo technoleg ac felly maent yn rhywbeth cyffredin iawn i fywydau'r plant pob dydd a ddylen ni ddefnyddio adnoddau sydd y perthnasol ac yn ddilys Iddyn nhw i allu gwneud y cysylltiadau rhwng y bywyd go iawn a'i dychmygion (Poulter and Basford, 2003:29). Mae e'n bwysig bod plant yn dysgu'r cysyniad bod perfformio gweithred fel gwasgu botwm yn ennyn ymateb ac felly mae hwn yn brofiad pwysig iddynt gael yn y dosbarth (Poulter and Basford, 2003:29). Mae cyfrifiaduron wedi bod yn ysgolion am ugain blynedd bellach ac mae'r effaith maent yn cael ar ddysgu ac addysgu wedi datblygu ar hyd y blynyddoedd, mae yna dystiolaeth i gyfiawnhau bod yna cydberthynas cadarnhaol rhwng ysgolion sydd â defnydd da o TGCH a safonau cyflawniadau uchel (Poulter and Basford, 2003:5). Mae TGCH yn golygu mwy na chyfrifiaduron yn unig, mae'n nifer o bethau yn cynnwys pecynnau meddalwedd, tabledi digidol a chamerau (Poulter and Basford, 2003:9). Mae Donaldson (2015) yn cyflwyno yn y dyfodol llwyddiannus, bod angen i blant ddatblygu eu sgiliau a gwybodaeth technoleg mewn

ffordd greadigol er mwyn fod yn aelodau pwysig o'r gweithluoedd yn y dyfodol ac yn rhan o fyd digidol. Mae TGCH yn gallu gwella dysgu ac addysgu yn y dosbarth trwy ddatblygu'r plant yn gymdeithasol ac emosiynol, sgiliau rhifedd y plant a'u dealltwriaeth o'r byd ac felly yn ardal hanfodol yn y dosbarth cyfnod Sylfaen (Poulter and Basford, 2003). Mae rôl yr oedolion yn holl bwysig yn yr ardal hon oherwydd y peryglon sydd yn cylchdroi o gwmpas y defnydd o'r we a hefyd i fedru gwneud yr ardal yn ardal lwyddiannus mae angen dealltwriaeth yr athro fod yn glir a pwrpasol i'r plant cael profiad ystyrlon (Poutler and Basford, 2003: 31).

Dylai athrawon dysgu i blant gwerth technoleg newydd drwy fod yn rôl dda gan ddefnyddio yn hyderus, diogel ac o dan reolaeth yn y dosbarth i annog plant i ddatblygu'r yr un agweddau.

"In our work and interactions with with children we should demonstrate confidence and competence with technology" (Whitebread and Coltman, 2003: 317).

I gloi, mae yna nifer o wahanol resymau o blaid ac yn erbyn yr ardaloedd rwyf wedi dewis ac felly mae hwn yn rhywbeth sy'n bwysig i ystyried wrth greu ardal dysgu er mwyn i'r ardal cyfoethogi'r dysgu ac nid ei gwasgu.

## Llyfryddiaeth

Bilton, H. (2010) *Outdoor learning in the early years: Management and innovation*. Routledge.

British Educational Research Association [BERA] (2018) *Ethical Guidelines for Educational Research*, fourth edition, London. <https://www.bera.ac.uk/researchers-resources/publications/ethical-guidelines-for-educational-research-2018>

Brophy, J. (2002). *Social constructivist teaching: affordances and constraints*. Bingley, UK: Emerald.

Brown, G. and Wragg, E. (1993). *Questioning*. London: Routledge.

Bruce, T. (2004) *Developing learning in early childhood*. Sage.

Donaldson, G. (2015). Dyfodol Llwyddiannus. Available:

<https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus-crynodeb-o-adroddiad-yr-athro-graham-donaldson.pdf>. Last accessed 12th Oct 2018.

Froebel, F. (1887) *The Education of Man*. New York: Appleton.

Furedi, F. (2002) *Culture of fear: risk taking and the morality of low expectations*. London: Continuum.

Geen, A. (2005). *Addysgu effeithiol ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain*. Caerdydd: UWIC.

Hayes, D. (2008). *Foundations of primary teaching*. 4th ed. London: Routledge.

Isaacs, S. (1929) *The Nursery Years. The Mind of the Child from Birth to Six Years*. London: Routledge & Kegan Paul.

Kerry, T. (1982) *Effective questioning*. London: Macmillan.

Llywodraeth Cymru. (2013). Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen: Datblygu Cymraeg fel iaith gyntaf mewn ysgolion cynradd ar sector nas cynhelir. Available: <https://www.estyn.llyw.cymru/thematic-reports/cymraeg-yn-y-cyfnod-sylfaen-datblygu-cymraeg-fel-iaith-gyntaf-mewn-ysgolion-cynradd>. Last accessed 10th Oct 2018.

Morgan, N. and Saxton, J. (1991). *Teaching, questioning, and learning*. London: Routledge.

Palaiologou, I. (2010). *The early years foundation stage*. Los Angeles: SAGE.

Petty, G. (2004) *Teaching today: A practical guide*. Nelson Thornes.

Petty, G. (2009). *Teaching today*. 4th ed. Cheltenham: Nelson Thornes.

Pizzolongo, P. (2014) Play in the early childhood years. *YC Young Children*, 69(2), p.6.

Pollard, A. and Black-Hawkins, K. (2014). *Reflective teaching*. 4th ed. New York.

Poulter, T. and Basford, J. (2003) *Using ICT in foundation stage teaching*. Learning Matters.

Smith, P.K. (2009) *Children and play: understanding children's worlds* (Vol. 12). John Wiley & Sons.

Tovey, H. (2007) *Playing outdoors: Spaces and Places, Risk and Challenge*. Open University Press.

Vygotsky, L. (1978) *Mind in Society*. London and Cambridge, MA : Harvard University Press.

Vygotsky, L. (1986) *Thought and Language*. London: The MIT Press.

Whitebread, D. and Coltman, P. (2003) *Teaching and learning in the early years*. Routledge.

Wragg, E. (1994). *An introduction to classroom observation*. London: Routledge.

Wragg, E. and Brown, G. (2001). *Questioning in the primary school*. London: Routledge Falmer.

